# Syniadau

# a

# Thempledi

yn dilyn cwrs Iseldireg

Mai 2020

Pegi Talfryn

**Cefndir**

Yn dilyn dyfodiad Covid 19, a'r angen i addasu i ddysgu ar-lein mewn cyfnod byr, mynychais gwrs Iseldireg dwys ar-lein i godi arferion da a syniadau newydd.  Roeddwn i wedi mynychu cyrsiau preswyl gan y corff BLC Language Courses / Dutch Summer School yn y gorffennol felly roeddwn i'n gwybod y byddai'r dysgu o safon uchel.  Dw i wedi ysgrifennu adroddiadau llawn os oes rhywun eisiau dysgu mwy am fy mhrofiadau.

Ceir yma syniadau a chopïau o dempledi a ddefnyddiwyd yn y cwrs. Roedd y cwrs ar lefel A2-A2+, ond teimlaf fod disgwyliadau Ewropeaidd o bosib yn uwch na'r disgwyliadau yng Nghymru.  Roedd llawer o'r gweithgareddau yn bethau y baswn i'n eu defnyddio ar lefel Canolradd mewn dosbarth Cymraeg.

Gobeithio y bydd yr adnoddau a'r syniadau o werth i diwtoriaid eraill. Mae croeso i chi gysylltu â fi am fwy o fanylion.

Pegi Talfryn

pegi@popethcymraeg.cymru

# Syniadau

# a

# Rhannu Profiadau

**(Dyma'r pwyntiau pwysicaf o'r adroddiadau llawn)**

**<u>WYTHNOS 1</u>**

**CYFLWYNIADAU**

Cynhaliwyd Cyfarfod Croeso ar Zoom ddwy noson cyn cychwyn y cwrs, efo dysgwyr o bob lefel. Gofynnwyd i'r myfyrwyr newid eu henwau a rhoi eu lefel yn gyntaf, felly roeddwn i'n **3 Pegi Talfryn**. Ar ôl croeso cyffredinol rhannwyd y lefelau i 'Breakout Rooms', a hynny'n hawdd gyda'r rhifau o flaen pob enw.

**ARFERION DA**

**Deialogau**

Mae'r deialogau'n cael eu rhannu'n dair rhan bob tro, felly mae pawb yn gweithio mewn grwpiau o dri. Ynghlwm â'r deialogau mae gweithgareddau ateb cwestiynau ynglŷn â nhw. Rhydd hyn gyfle i'r dysgwyr wneud gwaith ymestynnol wrth i'r tiwtor fynd o un ystafell i'r llall.

**Taflenni Gwaith**

Mae'r tiwtor yn rhannu taflenni gwaith yn ddigidol yn feunyddiol. Ar gyfer ein cyrsiau ni, byddwn i fel arfer yn rhannu copïau caled â'r dysgwyr o flaen llaw, posib gyda lliwiau penodol ar gyfer pob diwrnod, ond wrth gwrs mae'r tiwtor yn datblygu ac addasu adnoddau wrth fynd ymlaen, gan fod hon yn sefyllfa hollol newydd.

Dyma'r rhai o'r pethau a rennir:

- Cwestiynau trafod, gydag arweiniad ynglŷn â'r patrymau y dylid eu defnyddio
- Croesair, gydag un person yn cael yr atebion i lawr a'r llall yn cael yr atebion ar draws, a'r dysgwyr yn esbonio'r atebion i'w gilydd.
- Ymarferion iaith a chystrawen
- Gwrando ar gân, gan roi'r geiriau i'r dysgwyr o flaen llaw, ond gyda chamgymeriadau. Rhaid i'r dysgwyr wrando am y camgymeriadau
- Taflen cysylltu ansoddair gydag enw. Mae un person yn cael sgwâr 4x4 gydag enwau a'r llall â sgwâr efo ansoddeiriau, ac mae angen eu cysylltu.

**Gweithgareddau Eraill**

- Tiwtor yn dangos rhestr o 10 gair sy'n berthnasol i'r wers am ddau funud. Yna mae'n rhoi un munud i'r dysgwyr gofio cymaint ohonynt ag y medrant, a'u hysgrifennu i lawr
- Defnyddio'r Bwrdd Gwyn ar gyfer 'brainstormio' geirfa

**Cystadlaethau**

Mae cystadlu'n ymddangos i fod yn bwysig iawn yn yr Iseldiroedd! Defnyddir 'Kahoot' ar ddechrau pob diwrnod i adolygu geirfa ac mae'n rhyfeddol gweld y dechnoleg yn gweithio gyda phobl o bob man yn effeithiol.

Dysgwyr yn ceisio dyfalu gair o'r testun gyda phum cliw. Roedd rhaid cysylltu â'r tiwtor efo 'direct chat' gyda'r atebion. Os oedd rhywun yn sicr o'r gair ar ôl un cliw, roedd angen danfon neges gyda'r rhif 5+ateb. Yna 4+ateb ar ôl yr ail gliw, ac yn y blaen. Felly roedd y tiwtor yn cadw sgôr a'u hadio i fyny ar ôl 10 cwestiwn.

**WYTHNOS 1**

**Gweithgareddau**

Dyma'r rhai o'r pethau oedd wedi digwydd yn ystod y gwersi'r tro hwn. Roedd y tiwtor wedi rhoi'r taflenni gwaith pwrpasol i ni cyn pob gwers. Byddaf yn cyfieithu rhai ohonynt ar ddiwedd y cwrs.

- **Gwneud rhestri yn y 'breakout rooms'** gydag un partner, megis 10 peth siomedig, 10 peth y dylid eu cadw'n gyfrinachol, 10 peth efallai y byddwch chi'n ei wneud yn y dyfodol
- **Ateb cwestiynau sy'n dangos dilyniant mewn trefn**. Mae hyn yn heriol mewn Iseldireg, gan fod y cystrawennau'n newid yn y cyd-destun hwn.
- **Rhannu lluniau o'r sefyllfa,** a'r myfyrwyr yn creu brawddegau
- **Cyfres o weithgareddau** yn trafod archebu bwyd
- **Rhannu'r myfyrwyr yn ddau grŵp.** Mae hyn yn cychwyn efo'r tiwtor yn newid enwau pawb, fel bod ganddynt naill ai **1** neu **2** o flaen eu henwau. Mae'r grŵp cyntaf yn cael rhestr o eiriau i'w dysgu (heb ysgrifennu). Mae'r grŵp arall yn dysgu 10 diffiniad (yn yr iaith darged). Yna paru pobl o'r gwahanol grwpiau a chael un person i enwi'r geiriau a'r llall i'w diffinio. Nod y dasg oedd sylweddoli nad oes angen Saesneg i esbonio geiriau newydd.
- **Mynd efo partner a cheisio dod o hyd i'r 10 gwahaniaeth mewn llun**. Rhoddwyd taflenni gyda geirfa ar gyfer y gweithgaredd hwn.
- **Trafod rhaglenni teledu mewn grwpiau o 3**
- **athrawes yn ysgrifennu gair fesul llythyren** ar 'chat' a'r myfyrwyr yn ceisio dyfalu beth ydy o.

**Syniadau**

Un peth mae'r tiwtor yn ein hannog i'w wneud ydy clicio ar 'ask host for help' os ydyn ni'n cael trafferth yn y **breakout rooms**.

Mae'n amlwg y dylai pob **pwerbwynt** sy'n cael ei rannu ar **Zoom** fod dim ond tri chwarter llawn, wedi'i alinio i'r chwith. Gan fod y rhes o wynebau ar yr ochr dde nid yw pawb yn medru gweld popeth ar y pwyntiau pŵer. Mae ffyrdd i ddatrys y problemau hyn wrth symud yr wynebau i rannau eraill o'r cyfrifiadur, ond gan nad yw pawb mor hyderus gyda thechnoleg, mae'n ddoethach osgoi'r broblem drwy greu sleidiau sy'n cyd-fynd â'r sustem.

Yn bersonol, fydda i byth yn defnyddio '**chat**' na **'whiteboard'** ar gyfer rhoi nodiadau i'r myfyrwyr. Mi fydda i bob tro yn defnyddio **dogfen Word** wag, yna, ar ddiwedd y wers, mae gen i ddogfen gyda'r holl nodiadau yn barod i'w rhannu gyda'r dysgwyr.

Un peth syml iawn, ydy awgrymu i'r myfyrwyr **wynebu'r golau** er mwyn bod yn weladwy i'r myfyrwyr eraill.

**Ystafell Gyfarfod**

Mae'r **Dutch Summer School** wedi creu ystafell gyfarfod ar **Zoom** lle mae'r myfyrwyr o bob lefel yn medru dod at ei gilydd. Mae'n bosib creu **breakout rooms** os oes mwy nag un lefel yno. Mae hi'n agored drwy'r amser. Byddai rhaid i'r myfyrwyr drefnu amser penodol i ddod at ei gilydd er mwyn iddi fod yn ddefnyddiol. Dw i wedi ymweld â'r lle, ond doedd neb yna.

## GWERS OLAF

### Seremoni Gloi

Daethpwyd â’r cwrs i ben gyda seremoni fach. Mi ymunodd Bart Leenhouts-de Pau, Sylfaenydd BLC Dutch Summer Courses â’r grŵp. Gan nad oedd dim modd cyflwyno tystysgrifau yn y cnawd, mi wnaeth ddangos tystysgrif pob unigolyn yn ddigidol, gyda’r tiwtor, Kirsten, yn dweud rhywbeth bach am bob unigolyn.

Roeddwn i’n teimlo bod yr elfen bersonol hon wir yn bwysig i aelodau’r dosbarth, gan nad oedd modd sicrhau cydnabyddiaeth o bob unigolyn mewn cyfarfod Zoom. Pan fyddaf yn dysgu mewn ystafell ddosbarth, dw i’n ceisio dweud rhywbeth personol cadarnhaol wrth basio wrth bob person yn ystod pob gwers. Mae hi’n fwy anodd gyda Zoom, ond gwnaf fy ngorau. Felly roedd y seremoni wedi creu ymdeimlad o gyrhaeddiad a boddhad emosiynol. Danfonwyd y tystysgrifau at y myfyrwyr yn ddigidol ar ôl y wers.

## CASGLIADAU TERFYNOL

Roedd dau reswm pam es i ar y cwrs Iseldireg. Y cyntaf oedd i godi syniadau ar gyfer dysgu efo **Zoom**, a’r ail oedd i godi unrhyw arferion da cyffredinol ar gyfer dysgu Cymraeg i Oedolion. Byddaf yn eu trafod ar wahân.

### Dysgu gyda Zoom

Mae rhai pethau syml a phwysig i’w dysgu o’m profiad.

- Peidio â chael mwy na 12 person mewn grŵp
- Dylai pwerbwyntiau gael eu dylunio i lenwi’r tri chwarter ar y chwith, gan adael y chwarter ar y dde’n wag ar gyfer y stribed wynebau
- Mae’r tiwtor yn medru newid enwau pobl yn hawdd, gan roi rhif cyn pob enw, sy’n golygu ei bod yn hawdd eu paru os oes gwaith cymharu efo taflenni gwahanol
- Mae taflen Word yn well na Chat i gadw cofnod a’i ddanfon at y myfyrwyr
- Mae’r Bwrdd Gwyn yn wych ar gyfer ‘brainstormio’
- Anogwch y myfyrwyr i ddefnyddio ‘Ask the Host for help’ pan maen nhw yn y ‘breakout room’
- Mae angen gwaith ymestynnol ar gyfer y myfyrwyr pan maen nhw mewn ‘breakout room’, gan fod y tiwtor weithiau yn aros yn hir mewn un ‘breakout room’

- **Cystadlaethau**
- Fel tiwtor dw i ddim mor hoff o gystadlaethau yn y dosbarth, gan fod yr un rhai bob tro'n cyrraedd y brig.  Dw i'n cael yr argraff bod cystadlu yn y dosbarth yn rhan bwysig o ddiwylliant Iseldireg.  Yn bersonol, dw i'n ceisio creu gweithgareddau sy'n golygu bod pawb yn cyrraedd y nod heb gymharu.
- <u>Adolygu</u>
- Mae Kahoot yn ddefnyddiol iawn ar gyfer adolygu, ond hyd yn oed pe defnyddir ffugenwau, mae pawb yn gwybod pwy sydd ar y blaen. Weithiau, pan dw i wedi bod mewn dosbarth fel myfyriwr, dw i ddim wedi clicio ar unrhyw ateb achos dw i ddim yn mwynhau'r tensiwn.
- Dw i wir yn hoffi'r *polls* sydd yn Zoom.  Mae'n bosib eu gwneud yn ddi-enw a does dim pwysau amser.  Ond y broblem fawr, hyd yn hyn, ydy does dim modd ail-ddefnyddio'r un *polls* ar gyfer dosbarth arall.  Mae angen eu hail-greu bob tro.  Mae'n siŵr y bydd Zoom yn datblygu hyn yn y dyfodol, ond mae'n boendod ar hyn o bryd.
- Roedd y tiwtor ar y cwrs Iseldireg yn rhoi gweithgareddau i barau ac yn eu galw'n gystadlaethau, sef cyfle i weld pa bâr oedd yn medru gorffen yn gyntaf.  Mae hyn yn gallu gweithio mewn dosbarth, lle mae person yn medru gweld lle mae pawb arni, ond doeddwn i ddim yn hoffi hyn ar Zoom.  Roedd hynny'n rhoi pwysau amser arnom, oedd yn golygu ein bod yn canolbwyntio ar orffen yn hytrach na bod yn gywir.  Ar ben hynny, doedden ni ddim yn gwybod os oedd pobl wedi gorffen ai peidio, ac yn teimlo'n ynysig.  Faswn i ddim yn argymell creu cystadlaethau i bobl sydd mewn 'breakout rooms'.

# Templedi

**Teimladau**

*Gweithio mewn parau. Mae un person yn gofyn cwestiwn gan ddefnyddio gair yn y sgwâr a'i groesi allan unwaith mae wedi'i ddefnyddio. Gwyliwch am dreigladau*

**Pryd rwyt ti'n teimlo ... yn...../ wedi......?**

**Ble rwyt ti'n teimlo ...**

| | | |
|---|---|---|
| **ymlaciedig** | **cryf** | **diogel** |
| **deniadol** | **wedi blino/<br>wedi ymlâdd** | **cartrefol** |
| **yn flin** | **hiraethus** | **nerfus** |
| **swil** | **pryderus** | **siomedig** |
| **llawn<br>stress** | **anghyffyrddus** | **unig** |

**Yr Ateb Cywir**

Rhaid defnyddio'r gair/ymadrodd mewn cromfachau i ymateb i'r cwestiwn/gosodiad

1. Wyt ti'n dal i gael teithio gyda dy basport? (wedi dod i ben)

2. Ego sum via veritas et vita. (golygu)

3. Wyt ti wedi dweud wrth dy fam dy fod yn disgwyl babi?

(cadw rhyngddon ni)

4. Wyt ti bob tro'n dweud y gwir? (celwydd)

5. Wyt ti'n mwynhau gwneud gwaith tŷ? (annifyr)

**Trafod nodweddion personoliaeth**

1. Yn dy farn di, pa nodweddion personoliaeth sy'n bositif? Pam?

2. Pa nodweddion personoliaeth sy'n negyddol? Pam?

3. Pa dair nodwedd dda sydd gen ti?

4. Pa dair nodwedd negyddol sydd gen ti?

5. Fedri di roi enghreifftiau o'r nodweddion hyn?

**Ffraeo**

1. Wyt ti'n ffraeo'n aml? Am beth? Efo pwy?

2. Beth wyt ti'n meddwl ydy'r ffordd orau i orffen dadl?

3. Dychmyga hyn: rwyt ti wedi ffraeo efo dy bartner. Dydy o/hi ddim eisiau cymodi. Beth ydy'r ffordd orau i ddatrys y broblem? Beth sy ddim yn gweithio?

4. Oes gen ti unrhyw gyngor i rywun sydd eisiau dod â ffrae i ben?

5. Dyma gyfieithiad o ymadrodd Saesneg. Paid â gadael i'r haul fachlud ar dy ddicter. Wyt ti'n cytuno efo'r ymadrodd hwn?

**Rhegi**

1. Sut mae pobl yn rhegi yn dy ardal enedigol?

2. Wyt ti'n rhegi'n aml? Pam? Pam ddim?

3. Pa fath o eiriau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer rhegi? er enghraifft: crefydd, rhannau'r corff, dy fam, ayb

4. Ym mha sefyllfaoedd wyt ti'n rhegi?

5. Beth ydy dy farn di am regi? Pryd mae hi'n iawn i regi? Pryd dydy hi ddim yn iawn?

**Trafod Gwyliau**

1. Lle rwyt ti eisiau mynd?
2. Faint wyt ti'n medru ei fforddio?
3. Pa adnoddau sy'n bwysig i ti mewn gwesty?
4. Beth sy'n bwysig i ti ei gael mewn ystafell wely mewn gwesty?
5. Faint o welyau sydd eu hangen arnat? Sut fath o welyau?
6. Ydy adolygiadau gan gwsmeriaid yn bwysig i ti?
7. Pa atyniadau wyt ti'n licio eu gweld o gwmpas y gwesty?
8. Wyt ti'n mwynhau cael brecwast yn gynwysiedig?

**Pa lety faset ti'n ei ddewis? Pam?**

1. ... ar gyfer gwyliau mewn dinas
2. ... ar gyfer pythefnos o wyliau dros yr haf
3. ... ar gyfer cynhadledd efo'r gwaith
4. ... ar gyfer mynychu cwrs preswyl?
5. ... ar gyfer gwyliau sgïo
6. ... ar gyfer gwyliau dy freuddwydion

**Enwa 10 peth**

1. Enwa 10 peth sy'n medru dy siomi
2. Enwa 10 peth mae angen eu cadw'n gyfrinachol
3. Enwa 10 peth byddi di o bosib yn eu gwneud yn dy fywyd – ond ddim yn bendant.

**Cwestiynau Cyffredinol**

1. Efo pwy faset ti’n hoffi siarad?
2. Tebyg i beth mae siapiau’r cymylau heddiw?
3. Pam neu am beth rwyt ti angen rhybuddio pobl eraill?
4. Gyda beth rwyt ti’n bwriadu ymuno eleni?
5. Pa danysgrifiadau sydd gen ti?
6. Pwy sy’n dy wylltio di weithiau?
7. Pam rwyt ti’n flin rŵan? Rho reswm.
8. Efo pwy rwyt ti weithiau’n flin/grac?

**Yr Ateb Cywir**

Rhaid defnyddio’r gair/ymadrodd mewn cromfachau i ymateb i’r cwestiwn/gosodiad

| | |
|---|---|
| 1. Gest ti noson hyfryd neithiwr? | (o’r diwedd) |
| 2. Wyt ti bob tro’n onest? | (dweud celwydd) |
| 3. Rhaid i ni gyfarfod yn fuan, achos mae gen i rywbeth i’w ddweud wrthyt ti. | (chwilfrydig / (ar bigau’r drain) |
| 4. Oedd y gwaith cartref yn anodd? | (llawer o) |
| 5. Pa lyfr wyt ti’n mynd i’w ddarllen nesaf? | (y dewis) |

**Trafod bwytai**

1. Beth oedd dy brofiadau mewn llefydd bwyta drwg? Beth wnest ti?

2. Wyt ti'n darllen adolygiadau o lefydd bwyta? Ydy hynny'n bwysig i ti? Pam? Pam ddim?

3. Wyt ti erioed wedi ysgrifennu adolygiad drwg am le bwyta?

4. Wyt ti erioed wedi ysgrifennu adolygiad da am le bwyta?

5. Beth ydy'r peth gwaethaf mae lle bwyta yn medru ei wneud?

**Rhestru nifer o weithgareddau mewn trefn** (gan ddefnyddio'r geiriau 'yna', 'wedyn', 'ar ôl hynny' ayb.)

1. Mae'r gwaith wedi gorffen ar rwyt ti'n mynd adre. Rwyt ti'n dod i mewn i'r tŷ. Beth wyt ti'n ei wneud?

2. Rwyt ti'n gorwedd yn y gwely ac mae'r larwm yn mynd. Rwyt ti i fod yn y gwaith / yn y dosbarth mewn awr. Beth wyt ti'n ei wneud?

3. Rwyt ti wedi blino, ond dwyt ti ddim yn medru cysgu. Dwyt ti ddim eisiau bod yn effro am awr arall. Beth wyt ti'n ei wneud?

4. Rwyt ti mewn lle bwyta a rwyt ti wedi gorffen bwyta. Rwyt ti eisiau talu a rwyt ti eisiau mynd adre. Beth wyt ti'n ei wneud?

5. Mae'n amser gwneud gwaith tŷ. Mae'r tŷ yn llanast. Beth wyt ti'n ei wneud?

6. Rwyt ti eisiau treulio diwrnod yn Y Rhyl. Dwyt ti erioed wedi bod yno o'r blaen, ond rwyt ti eisiau paratoi ar gyfer y diwrnod. Beth wyt ti'n ei wneud?

**Cwblhewch y brawddegau**

1. Rhaid i ni feicio adref yn gyflym, achos …

2. Tybed …

3. Heddiw mae'n 35 gradd. Er gwaetha hynny ...

4. Mae'r athro'n dechrau siarad cyn gynted â / ag ....

5. Rydw i'n mynd i farbeciw heno, er…

6. Yn gyntaf dwi'n mynd i siopa. Wedyn…

7. Rydyn ni'n dysgu llawer o ramadeg. Ar ben hynny ...

8. Mae'n oer heddiw, felly…

A.… bydda i'n beicio 30 cilomedr.

B.… bydd hi'n bwrw glaw yn fuan.

C.… mae'r myfyrwyr yn dawel.

D. ... ydy cemeg yn anodd.

E. ... dw i'n gwisgo cot gynnes.

F. ... rydyn ni'n dysgu geiriau newydd.

G. ... mod i'n llysieuwr.

H.… dw i'n mynd i goginio ar gyfer fy nghariad.

**Y Cyfryngau**

1. Wyt ti'n gwylio'r teledu. Beth wyt ti'n ei wylio? Pa mor aml?
2. Beth ydy dy hoff raglen ar y teledu? Sut raglen ydy hi?
3. Wyt ti'n dilyn unrhyw gyfres? Pa gyfres?
4. Wyt ti'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol? Pa rai?
5. Wyt ti wedi gwylio rhaglenni Cymraeg? Sut oedden nhw? Oeddet ti'n medru deall?

**Cwestiynau wrth edrych ar gardiau cyfarch**

1. Beth sydd ar y cerdyn?
2. Pryd faset ti'n danfon cerdyn felly?
3. Pryd wyt ti'n danfon cardiau? Ym mha sefyllfaoedd?
4. Ydy pobl yn danfon gormod o gardiau?
5. Oes rhai achlysuron lle mae pobl yn danfon cardiau heddiw, ond doedden nhw ddim yn gwneud ers talwm?
6. Wyt ti erioed wedi derbyn cerdyn annisgwyl? Beth oedd yr achlysur? Sut oeddet ti'n teimlo?

# Gweithgareddau Pâr

**(angen i'r dysgwyr beidio ag edrych arnynt o flaen llaw)**

**Gwaith Cysylltu**

*Mae un person yn edrych ar y disgrifiadau a'r llall ar yr enwau. Mae partner 1 yn dweud un o'r geiriau a'r partner arall yn dewis disgrifiad i fynd gyda'r gair. Gwaith ymestynnol: Creu brawddeg gyda'r cyfuniad.*

**Partner 1**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **dyn** | **pizza** | **cyfrifiadur** | **rheolwr** |
| **tŷ** | **omled** | **côr** | **llong** |
| **oriawr** | **cawg** | **arian** | **beic** |
| **cwrs** | **tirlun** | **trowsus** | **artist** |

**Gwaith Cysylltu**

*Mae un person yn edrych ar y disgrifiadau a'r llall ar yr enwau. Mae partner 1 yn dweud un o'r geiriau a'r partner arall yn dewis disgrifiad i fynd gyda'r gair. Gwaith ymestynnol: Creu brawddeg gyda'r cyfuniad.*

**Partner 2**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **mawr** | **blin / crac** | **newydd** | **hen** |
| **bach** | **aur** | **cynnes** | **clyd** |
| **melyn** | **gwyrdd** | **sgwâr** | **llithrig** |
| **llwyddiannus** | **lwcus** | **clyfar** | **blasus** |

**Nodyn: Mae hyn yn enghraifft o'r hyn y medrwch ei wneud gyda geirfa gwers. Defnyddiwch y templed hwn ar gyfer eich gwersi chi.**

**Gwaith Cysylltu**

*Rhannwch y dosbarth yn ddau grŵp. Mae un set yn edrych ar ddiffiniadau a'r llall ar eiriau, gan geisio eu dysgu'n drylwyr. Yna rhowch un o bob grŵp mewn parau. Mae'r myfyrwyr yn ceisio cysylltu'r geiriau a'r diffiniadau* ***HEB*** *edrych ar y taflenni.*

**Partner 1**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **dychmygu** | | **yn sydyn** | |
| **y bennod** | | **lletchwith** | |
| **yr aelod** | | **y testun** | |
| **perchen ar** | | **fferm** | |
| **rhamantus** | | **buwch** | |

**Nodyn: Mae hyn yn enghraifft o'r hyn y medrwch ei wneud gyda geirfa gwers. Y nod ydy sylweddoli ei bod yn bosib disgrifio geiriau heb ddefnyddio Saesneg. Defnyddiwch y templed hwn ar gyfer eich gwersi chi.**

**Gwaith Cysylltu**

*Rhannwch y dosbarth yn ddau grŵp.  Mae un set yn edrych ar ddiffiniadau a'r llall ar eiriau, gan geisio eu dysgu'n drylwyr.  Yna rhowch un o bob grŵp mewn parau.  Mae'r myfyrwyr yn ceisio cysylltu'r geiriau a'r diffiniadau* ***HEB*** *edrych ar y taflenni.*

**Partner 2**

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **meddwl am rywbeth sy ddim yn bodoli** | | **digwydd yn gyflym, heb ddisgwyl** |
| | **darn o gyfres o straeon** | | **Ddim yn dda gyda'i ddwylo. Rhywun sy'n baglu.** |
| | **person sy'n cymryd rhan mewn rhywbeth** | | **deunydd siarad** |
| | **pan fod rhywbeth gan rywun** | | **Ble mae ffermwr yn gweithio** |
| | **awyrgylch hyfryd lle medri di ffindio cariad** | | **anifail sy'n rhoi llefrith** |

**Nodyn:  Mae hyn yn enghraifft o'r hyn y medrwch ei wneud gyda geirfa gwers.  Y nod ydy sylweddoli ei bod yn bosib disgrifio geiriau heb ddefnyddio Saesneg.  Defnyddiwch y templed hwn ar gyfer eich gwersi chi.**

**Geiriau tabŵ - Partner 1**

Rhaid i dy bartner ddyfalu'r geiriau, ond dwyt ti ddim yn cael defnyddio'r geiriau tabŵ. Er enghraifft:

| **Geiriadur** |
|---|
| gair / geiriau<br>llyfr<br>cyfieithu |

*"Mae o wedi cael ei wneud allan o bapur. Mae llawer o lythrennau ynddo fo. Mae popeth yn nhrefn yr wyddor. Rwyt ti angen hwn os wyt ti'n dysgu Cymraeg. Rwyt ti'n medru dod o hyd i ystyron pethau. Rwyt ti'n medru dod o hyd i ystyron."*

| **1. arogleuo** |
|---|
| trwyn<br>gwynt (de Cymru) ogla (Gogledd Cymru)<br>braf / hyfryd |
| **2. Ffôn** |
| galw<br>symudol<br>sgwrs |
| **3. Pobman** |
| lle<br>pob<br>ymweld â |
| **4. tostar** |
| bara<br>trydan<br>coginio |
| **5. cynnig** |
| derbyn<br>swydd<br>newydd |

**Nodyn: Mae hyn yn enghraifft o'r hyn y medrwch ei wneud gyda geirfa gwers. Defnyddiwch y templed hwn ar gyfer eich gwersi chi.**

**Geiriau tabŵ – Partner 2**

Rhaid i dy bartner ddyfalu'r geiriau, ond dwyt ti ddim yn cael defnyddio'r geiriau tabŵ.  Er enghraifft:

| **Geiriadur** |
|---|
| gair / geiriau<br>llyfr<br>cyfieithu |

*"Mae o wedi cael ei wneud allan o bapur.  Mae llawer o lythrennau ynddo fo.  Mae popeth yn nhrefn yr wyddor.  Rwyt ti angen hwn os wyt ti'n dysgu Cymraeg.  Rwyt ti'n medru dod o hyd i ystyron pethau.  Rwyt ti'n medru dod o hyd i ystyron."*

| **1. priflythyren** |
|---|
| enw<br>llythyren<br>bach |
| **2. cannwyll** |
| tân<br>golau<br>cynnes |
| **3. ynganu** |
| siarad<br>da<br>sŵn |
| **4. Ysgrifenyddes** |
| cymhorthydd<br>helpu<br>gwaith |
| **5. dyfalu** |
| berf<br>gwybod<br>cwestiwn |

**Nodyn:  Mae hyn yn enghraifft o'r hyn y medrwch ei wneud gyda geirfa gwers.  Defnyddiwch y templed hwn ar gyfer eich gwersi chi.**